# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion: FIN(3)-14-10 : Dyddiad: Dydd Iau 15 Gorffennaf 2010

Gallwch weld y cyfarfod ar Senedd TV: h

ttp://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_15_07_2010&t=0

**Amser: 8.30 - 12.50**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Andrew Davies, Gorllewin Abertawe
Chris Franks, Canol De Cymru
Brian Gibbons, Aberafan
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones, Llanelli
Nick Ramsay, Mynwy

### Eraill yn bresennol

### Eitem 2

Y Fonesig Gillian Morgan DBE, yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Caren Fullerton, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 3

Gerry Holtham, Cadeirydd, Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru

### Eitem 4

Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Lynne Hamilton, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Carla Lyne, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Staff y Pwyllgor

John Grimes, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc

### Sesiwn Breifat o dan Reol Sefydlog 10.37(vi)

1.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar oblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru).

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Janet Ryder. Roedd Irene James a Helen Mary Jones yn dirprwyo ar eu rhan.

### Eitem 2: Niferoedd a chostau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru - tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Papur: FIN(3)-14-10(p1)

3.1 Bu'r Ysgrifennydd Parhaol a Ms Fullerton yn ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar niferoedd a chostau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn amlinellu'r meysydd i'w trafod a amlygwyd gan yr Aelodau.

### Eitem 3: Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru - briff gan Gerry Holtham

Papur: FIN(3)-14-10(p2)

4.1 Bu Mr Holtham yn ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru.

4.2 Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Mr Holtham yn ôl ar gyfer sesiwn arall gyda'r Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref.

### Eitem 4: Adolygiad o'r gost o weinyddu'r system addysg yng Nghymru - tystiolaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Papur: FIN(3)-14-10(p3)

5.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ar yr adolygiad o'r gost o weinyddu'r system addysg yng Nghymru.

### Eitem 5: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd am weddill y cyfarfod

6.1 Cynigiodd y Cadeirydd, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### Sesiwn breifat

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru).

### Papurau i'w nodi

Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) - Ymateb y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor
FIN(3)-14-10 papur 4

Cyllideb Atodol 2010-11 Llywodraeth Cynulliad Cymru - Gwybodaeth Ychwanegol gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
FIN(3)-14-10 papur 5

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2010.
Papur: FIN(3)-12-10(min)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2010.
Papur: FIN(3)-13-10(min)

### Gwasanaeth y Pwyllgorau